CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION CYFARFOD HYDREF 10, 2023

www.cyngorllanelltyd.cymru

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref, Llanelltyd**
**Nos Fawrth, Hydref 10, 2023 am 7.30 o'r gloch.**

**Presennol:** Cynghorwyr: Simon Evans (Cadeirydd), Llinos Rowlands, Eleri Jones. Gwenan Owen a Gareth Ellis. Hefyd Henry M. Edwards.

**1. Ymddiheuriadau:** Elfed ap Gomer, Geraint Rowlands, Llinos Williams, Cyng. Delyth Lloyd Griffiths

**2. Datgan diddordeb:**

Eitem 9.i. Roedd Llinos Rowlands yn datgan diddordeb ynglŷn â chŵyn Mr Kevin Williams.

**3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Medi 12, 2023**

Cynigwyd y cofnodion gan Llinos Rowlands ac eilwyd gan Eleri Jones.

**4. Materion yn codi o'r cyfarfod Medi 12, 2023**

Eitem 9.ll. Llythyr (22/9/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod mae'r Gynhadledd Blynyddol a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol wedi cael ei ganslo. Hwyrach fe fydd yn cael ei gynnal mewn fformat rhithwir ddiwedd Ionawr 2024.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

**5. Materion Ariannol**

a. Balans yn y banc ar 29/9/2023: £11,093.79. (29/9/2022: £15,016.45).

b. Llythyr (6/10/2023) oddi wrth Elusen Ambiwlans Awyr Cymru. Maent angen cymorth ariannol.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

**6. Archwilio**

a. Llythyr (27/9/2023) oddi wrth Archwilio Cymru yn rhoi gwybod maent wedi cwblhau eu harchwiliad o gyfrifon y Cyngor ar gyfer 2021 – 2022 a 2022 – 2023. Amgáu mae:

1. Ffurflen Blynyddol 2021 – 2022. O’r Ffurflen nid oes materion sy’n achosi pryder i’r Archwilydd.

2. Ffurflen Blynyddol 2022 – 2023. O’r Ffurflen nid oes materion sy’n achosi pryder i’r Archwilydd. Ond mae o farn nid yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn gyson â threfniadau rheoli mewnol a llywodraethu'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn:

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r SAC (Swyddog Cyllid Cyfrifol) ardystio'r cyfrifon cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y Cyngor. Ardystiodd yr SAC y cyfrifon ar ôl cymeradwyaeth y Cyngor.

3. Hysbysiad cwblhau archwiliad 2021 – 2022 a 2022 - 2023. Mae angen arddangos yr Hysbysiad am 14 diwrnod a bod Ffurflen Blynyddol ar gael i’r etholwyr i’w archwilio. Mae angen eu rhoi ar ein gwefan.

Anfonwyd y llythyr i’r aelodau.

Rhoddwyd (29/9/2023) y tair dogfen ar ein gwefan a’r hysbysiad ar ein hysbysfyrddau.

**7. Mynwent Llanelltyd**

**8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

**9. Gohebiaeth**

a. Llythyr (20/9/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynnwys ‘Cylchlythyr Rhif 1 Un Llais Cymru’. Roedd y llythyr yn pwysleisio bod pob cynghorydd yn derbyn y Cylchlythyr sy’n arddangos y gwaith pwysig mae cynghorau cymuned yn ei wneud.

Anfonwyd y llythyr i’r aelodau.

b. Llythyr (25/9/2023) oddi wrth Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad, Cyngor Gwynedd gyda chopi o’r Gorchymyn terfynol cyfyngiad cyflymder 30mya yn ardal Meirionnydd.

Anfonwyd y llythyr i’r aelodau.

 Llofnod: Dyddiad:

c. Llythyr (25/9/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am hyfforddiant bydd ym mis Medi a Hydref, 2023.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ch. Llythyr (26/9/2023) oddi wrth Swyddog Cefnogi Cymunedau (Huw Antur Edwards), Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae'n gwneud gwaith sy'n cynorthwyo grwpiau adfywio lleol sydd gyda phrosiectau a gwybodaeth am wahanol gronfeydd ariannol sydd ar gael.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

d. Llythyr (26/9/2023) oddi wrth Huw Antur Edwards, Cyngor Gwynedd gyda gwybodaeth am Canllawiau a Ffurflen Gais ar gyfer Cynllun Bwyd Cist Gwynedd.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

dd. Llythyr (26/9/2023) oddi wrth Menter Iaith, Cyngor Gwynedd gyda holiadur angen ei gwblhau. Gyda nifer gynyddol o bobl ddi-Gymraeg yn cael eu hethol yn gynghorwyr maent angen gwybod beth rydym yn ei wneud i sicrhau fod y Gymraeg yn cadw ei statws.

Rhoddwyd gwybod iddynt mai Cymraeg yw'r iaith y Cyngor.

e. Llythyr (27/9/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd bydd ar Zoom ar Hydref 4, 2023 am 7.00yh. Amgáu mae Agenda a'r siaradwr fydd James Davies a'i dopig fydd 'Herio cynigion adeiladu tai'.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

f. Llythyr (28/9/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal i wella gwasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ff. Llythyr (28/9/2023) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd Tim Tacluso Ardal Ni yn gwneud gwaith yn Llanelltyd ar 16 – 20/10/2023).

g. Llythyr (4/10/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am ddathliad i goffau 80fed mlynedd 'D-day' bydd yn cymryd lle ar Mehefin 6, 2024.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

h.  Llythyr (5/10/2023) oddi wrth Mantell Gwynedd yn rhoi gwybod am gyfarfod ‘Gwybodaeth a chyngor am iechyd a llesiant’ bydd yn cael ei gynnal yn Glanwnion, Dolgellau ar 12/10/2023 am 10yb-2yp.  Mae’r llythyr yn cynnwys manylion ar faterion ychwanegol.

Anfonwyd y llythyr i’r aelodau.

i.  Llythyr (6/10/2023 oddi wrth Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad, Cyngor Gwynedd.  (Llythyr ateb i ymoliad Cyng. Delyth Lloyd Griffiths gyda’r Gwasanaeth ynglŷn â’r 20mya yn Bontddu wedi iddi dderbyn cwyn gan Mr Kevin Williams yn gwrthwynebu’r cyflymder).  Mae’n rhoi gwybod maent wedi ychwanegu Bontddu ar eu Rhestr Monitro a pan ddaw’r amser ar ôl y cyfnod ‘setlo i lawr’ byddant yn cysylltu yn ôl gyda’r cynghorydd sir a chyngor cymuned am adborth.

Anfonwyd y llythyr i’r aelodau.

j.  Poster (7/11/2023) oddi wrth Swyddfa Blaid Cymru yn rhoi gwybod cynhelir Cymhorthfa yn Rhydymain ar 10/1/2023.

Anfonwyd y poster i’r aelodau.

**10.  Bioamrywiaeth**

a.  Llythyr (14/9/2023) oddi wrth Elen Jones, Swyddog Prosiectau Cadwraeth, Coed ac Amaeth, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn rhoi gwybod mae ein cynllun wedi cael ei dderbyn gan y pwyllgor ac mi fydd yn cael ei gyflwyno am y grant.  Mae’r Swyddog angen cyfarfod ar y safle.

Mae cyfarfod wedi cael ei drefnu ar 25/10/2023 am 12.00.

b.  Llythyr (26/9/2023) oddi wrth Swyddog Bioamrywiaeth, Cyngor Gwynedd (trwy law Un Llais Cymru a Swyddog Cefnogi Cymunedau (Huw Antur Edwards, Cyngor Gwynedd)) yn rhoi gwybod mae Partneriaeth Natur Cymru wedi cael arian i wella amgylchedd Gwynedd.  Mae hyn yn rhoi cyfle i gynghorau tref a chymuned i gael cyllid i wella tiroedd er budd natur.  Os mae diddordeb i gysylltu â HywynWillians@gwynedd.llyw.cymru

Anfonwyd y llythyr i’r aelodau.

c.  Llythyr (27/9/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod mae arian ar gael gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, ar ran Llywodraeth Cymru, i adfer natur yng Nghymru.  Mae’r arian ar gael i brosiectau sydd gan gynghorau.

Llythyr (28/9/2023) oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi gwybod am yr arian.

Anfonwyd y llythyrau i’r aelodau.

ch. Llythyr (6/10/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am becyn perllan gymudol sydd ar gael ganddynt am ddim i grwpiau a sefydliadau cymunedol. Mae'r pecyn yn cynnwys coed ffrwythau, bylbiau a blychau cynefin.

Anfonwyd y llythyrau i'r aelodau.

**11. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths**

a. Llythyr (18/9/2021) oddi wrth Gethin Williams oedd angen gwybod beth i'w wneud gyda choeden oedd wedi cwympo ar draws llwybr wrth Bont Figra, Bontddu.

Gofynnwyd i Gyngor Gwynedd symud y goeden.

Llythyr (20/9/2023) oddi wrth Swyddog Hawliau Tramwy Meirionnydd yn rhoi gwybod bydd Cyngor Gwynedd yn clirio'r goeden. Hefyd, mi fydd yn archwilio draeniad y lleoliad oherwydd mae'r llwybr yn wlyb dan draed.

b. Llythyr (24/9/2022) yn rhoi gwybod mae dau gŵyn wedi ei dderbyn gan ddau berson ynglŷn â'r 20mya yn Bontddu:

1. Mae Mr Pike yn adrodd fod yr arwydd 20mya, sy'n cychwyn wrth ei dy, yn y lle anghywir – hoffai iddo fod wrth y gilfach sydd wrth ddod o Dolgellau.
2. Mae cyn Cynghorydd Gethin Williams yn adrodd ei fod am ddiddymu y 20mya yn llwyr yn Bontddu.

Yn fy marn i gawn edrych ar y mater eto mewn chwe mis i gael gweld beth yw teimladau pobl ar ôl y cyfnod cychwynnol.

Hefyd, ymddiheuraf fod i'n methu bod yn y cyfarfod 10/10/23.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Llythyr (5/10/2022) i'r Cyfarfod:

1. Cwestiwn ar Dai Cymdeithasol sydd yn cael eu feddiannu.

Cefais y cyfle i rhoi cwestiwn a ofynnwyd i mi yn Y Ganllwyd ymlaen i'r Cyngor Llawn 28/9/23.

Mae'r Cyngor Llawn wedi addo arian i sicrhau fod adnoddau addas ar gael i'r Cynllun yma.

Mae staff Adran Tai wedi cyd weithredu yn llawn i sicrhau fod adnoddau ar gael.

2. Prynnu yn lleol.

Yn dilyn fy nghwestiwn yn y Cyngor yn 2022 mae y pwyslais ar brynu bwyd yn lleol wedi bod yn mynd ymlaen.

Erbyn hyn, mae Gwynedd yn prynu 80% o gig oen a 100% o gig eidion yn lleol (nid o reidrwydd o Wynedd) a 30% o fara yn dod o ffynonellau lleol.

 Llofnod: Dyddiad:

Mae contractau newydd allan gan y Cyngor rwan sydd yn edrych ar brynu yn lleol fwy- oherwydd fy anogaeth i.

Bydd monitor yn parhâi eleni.

3. Cyflymdra ceir yn ardal Bro Cymer.

Mae Gwynedd wedi trefnu fod Adran Cefnffyrdd yn rhoi sylw i'r mater yma a dwi wedi gofyn am ymweliad safle.

4. 20 mya

Bontddu - Un cwyn yn erbyn 20mya gan Gethin Williams sydd ddim yn byw yn y ward.

Nifer o drigolion pentref Bontddu yn hapus iawn efo'r sefyllfa.

Mr Pike eisiau gwneud y darn 20mya yn hirach gan gychwyn yn y cylchfan cyn dod at ei gartref o ardal Dolgellau.

Llanelltyd – un wedi cwyno fod llawer o newidiadau o ran cyflymder rhwng yr Ysgol a Bro Cymer – nid oedd y person yn byw yn Llanelltyd (ond yn y ward).

5. Toiledau.

Cafwyd trafodaeth yn y Pwyllgor Cymunedau 5/10/23.

Gofynnais am ail ystyried y rhai sydd wedi cau yn fy ward a cytunwyd i wneud hyn gan y Prif swyddog.

Mae rhai ym meddiant Gwynedd o hyd ond rhai wedi gwerthu.

Mae yn bosib o hyd i Gynghorau Cymuned weithio ar y cyd ar Cyngor Sir i gynnal toiledau.

Hoffwn drafod y mater yma yn y Cyngor yn Rhagfyr gyda cyd weithrediad y clerc a hefyd aelodau?

6. Llinellau melyn yn Bontddu (wrth yr hen Swyddfa Bost) – wedi cyrraedd ac yn effeithiol iawn yn ôl trigolion.

7. Cynllun Bioamrywiaeth y Cyngor.

Mae Adrian Williams( Priffyrdd) wedi gofyn os yw Cyngor Cymuned yn hapus i Gyngor Gwynedd rhoi lleoliad yr Hen Bont yn Llanelltyd yn eu cynllun hwy?

Mae cais am arian grant yn mynd i fewn yn fuan.

8. Defib Bontddu –

Rwyf wedi gofyn i'r Pwyllgor am gael llun i godi ymwybyddiaeth o leoliad y De fib yn lleol. Mae Paul Williams yn awyddus i hyn ddigwydd a hoffwn i'r Cyngor Cymuned a hefyd y Clerc gael eu cynrychioli hefyd.

 Llofnod: Dyddiad:

9. Cwestiwn Y Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths

“Mae etholwyr yn fy ward wedi codi'r mater o dan feddiannu eiddo yn y sector gymdeithasol yn ddiweddar. Mae nifer uchel o unigolion yn byw mewn tai cymdeithasol mewn pentrefi lle mae nifer fach iawn o dai cymdeithasol ar ôl. Beth mae'r Cyngor a Chymdeithasau Tai yn ei wneud i roi cymorth i unigolion sydd yn tan feddiannu cartrefi yn y sector cymdeithasol i symud i gartrefi addas ar gyfer unigolyn? Oes modd i’r Cyngor a Chymdeithasau Tai adnabod yr angen yng Ngwynedd? O adnabod yr angen, oes modd sefydlu neu wella'r gwasanaeth presennol sydd ar gael ar gyfer trigolion sydd yn awyddus i symud i gartref newydd? Gofynnir i'r Cyngor weithio gyda bob cymdeithasau Tai i adnabod pa gymorth ymarferol sydd ar gael i unigolyn sydd yn awyddus i symud tŷ ond sydd angen cymorth ymarferol gyda’r broses o fudo.”

Ateb – Yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn yn absenoldeb yr Aelod Cabinet Tai, Y Cynghorydd Craig ab Iago Tud. 5

“Rydym yn ymwybodol y gall tan-feddiannu achosi rhwystrau i rai unigolion a theuluoedd, ac o ganlyniad mae trefniadau a phrosesau eisoes yn bodoli o fewn y Polisi Gosod Tai Gyffredin sy’n hwyluso trefniadau ar gyfer y Cymdeithasau Tai lle mae unigolion a theuluoedd yn dymuno symud oherwydd materion tan-feddiannu (cymalau 3.22 a 3.36 yn y Polisi Gosod Tai Gyffredin). Rydym yn fodlon codi’r pwyntiau y mae’r Aelod yn eu nodi gyda’r Cymdeithasau Tai yn y Bwrdd Partneriaeth Tai, lle bydd cyfle i drafod trefniadau presennol ac i wneud rhagor o ymchwil i'r achosion o dan-feddiannu i adnabod cyfleoedd penodol i allu cynnig cymorth ychwanegol.

Ymateb Adra

”Dyma’r ymateb rwyf wedi derbyn ynglun a’ch ymholiad –

Wrth osod eiddo mae Adra yn sicrhau nad ydym yn creu sefyllfa o danfeddiannu er mwyn gwneud y defnydd gorau o’n stoc.

Mae gan Adra Polisi Tanfeddiannu ac pwrpas y polisi hwn yw nodi sut mae Adra yn ymdrin â tan-feddiannu eiddo rhent cymdeithasol er mwyn rhoid cyfleon ac I cynorthwyo tenantiaid I symud I gartref llai sydd yn fwy cynnaliadwy iddynt ac lle bosib maent yn cael parhau I fod yn rhan o’u cymuned. Yn aml mae tenantiaid ddim yn dymuno symud o’I cartref gan ei fod nhw wedi byw o fewn cymuned ers blynyddoedd ac efalle nad oes eiddo llai ar gael yn y gymuned hwnnw e.e. bungalow neu fflat. Hefyd, mae’n werth nodi nad yw’r polisi ‘bedroom tax’ yn cael effaith ar bensiynwyr.

Mae’r Tim Gosod yn cadw cofrestr o’r holl tenantiaid sydd wedi dangos diddordeb yn symud I eiddo llai ac rydym yn gallu cynnig trosglwyddiad rheolaeth iddynt os mae’r tenant yn fodlon symud I eiddo sydd yn fwy addas I’w anghenion. Esiamplau o’r rhesymau dros symud rydym yn gweld yn rheolaidd yw fforddiadwyaeth, methu ymdopi gyda maint yr eiddo neu efalle angen addasiadau.

Mae hefyd grant tan-feddiannu ar gael ar gyfer hwyluso’r broses o symud I’r tenantiaid sydd yn tanfeddiannu. Mae’r taliad yma yn gallugoi tenantiaid talu am e.e. carpedi, cost symud ayyb, sydd yn arwain yn pen draw
at rhyddhau ty teulu.

Wrth I Adra datblygu safleoedd newydd ar gyfer pobl dros 55 blwydd oed, e.e. Frondeg yn Pwllheli ac Plas Penrhos yn Fangor, rydym yn rhagweithiol ac yn annog tenantiaid sydd yn tanfeddiannu I gysidro symud I eiddo sydd yn fwy addas I'w anghenion.

Gobeithio eich bod yn fodlon a'n hymateb. Os na fyddwn yn clywed yn ôl gennych o fewn 10 diwrnod gwaith (o ddyddiad yr e-bost hwn), byddwn yn cymryd eich bod yn fodlon i ni gau'r achos.

Os hoffech unrhyw wybodaeth bellach, cysylltwch â mi ar 01248 677133.

Cofion Cynnes,

Ffion Roberts

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd trafod y mater yn ein cyfarfod nesaf.

## 12. Materion Aelodau

a. Dyfodol y Clerc. Mae'r aelodau yn gwneud ymdrech i gael Clerc newydd.

----------